

Negeseuon allweddol ymchwil ar gam-drin plant sy'n cael ei gyflawni gan oedolion

Sarah Brown

Athro Dirprwyol, Cyfadran y Celfyddydau,
Busnes a'r Gyfraith, Ysgol y Gyfraith, USC,
Queensland, Awstralia

Cymrawd Gwadd, y Gyfadran Iechyd a
Gwyddorau Cymhwysol (HAS), University
of the West of England (UWE), Bryste

Gorffennaf 2020

Negeseuon allweddol

Pwy sy'n cam-drin plant yn rhywiol?

Ni wyddom faint o oedolion sy'n cam-drin plant yn rhywiol, ond mae'n amlwg bod mwy ohonynt na'r hyn a ddangosir yn y ffigurau swyddogol, a bod nifer fawr o oedolion yn defnyddio delweddau sy'n dangos plant yn cael eu cam-drin yn rhywiol.

Mae'r rhan fwyaf o gam-drin plant yn rhywiol (CSA) lle mae cysylltiad uniongyrchol yn cael ei gyflawni gan rywun mae'r plentyn yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo.

Mae bron pob unigolyn a geir yn euog o gam-drin plant yn rhywiol yn ddyn, ond mae menywod sy'n gyflawnwyr yn fwy cyffredin na mae'r data swyddogol yn ei awgrymu.

Daw cyflawnwyr o bob cefndir, ac nid yw ethnigrwydd yn fodd i ragweld pwy fydd yn gyflawnwyr.

Beth yw'r llwybrau at droseddau cam-drin plant yn rhywiol?

Mae'n debygol bod nifer o lwybrau gwahanol a chymhleth at droseddu CSA.

Nid oes gan y rhan fwyaf o oedolion sy'n cyflawni CSA hanes troseddol hir na ffordd droseddol o fyw.

Nid yw'r rhan fwyaf o ddiodefwrwr CSA yn mynd ymlaen i gyflawni CSA eu hunain; fodd bynnag, mae'r sawl sy'n cyflawni CSA yn fwy tebygol nag oedolion eraill o fod wedi profi ffurfiau lluosog o gamdriniaeth fel plant, gan gynnwys camdriniaeth gorfforol, ddomestig neu rywiol, ac esgeulustod.

Gall arferion cymdeithasol a diwylliannol, yn ogystal â lleoliadau sefydliadol ac amgylcheddol, roi cyd-destun lle gall CSA ddigwydd. Mae troseddau'n digwydd yn bennaf yng nghyd-destun rhyngweithio cymdeithasol arferol. Gall sefyllfaoedd a lleoliadau roi cyfleoedd i unigolion i droseddu, a/neu roi pwysau cymdeithasol neu wanhau eu cyfyngiadau moesol, sy'n arwain at CSA. Mae troseddau cyntaf yn aml yn digwydd ar adegau pan fydd y cyflawnwr yn profi iselder, gorbryder a straen.

Pa ymyriadau sy'n effeithiol?

Nid yw'r rhan fwyaf o unigolion a geir yn euog o droseddau rhywiol, gan gynnwys CSA, yn cael eu heuogfarnu am droseddau rhywiol pellach. Ychydig yn unig o fenywod a dynion sy'n cael eu heuogfarnu am droseddau ar-lein sy'n cael eu heuogfarnu am aildroseddau rhywiol. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'r rhan fwyaf o CSA yn dod i sylw'r awdurdodau.

Mae tystiolaeth yn brin o ran effeithiolrwydd rhaglenni a ddefnyddir yn y DU i roi sylw i droseddu rhywiol, yn enwedig rhai sy'n benodol i CSA; er enghraifft, nid yw rhaglenni seiliedig ar drawma cyfredol a ddefnyddir yn y DU ac sy'n seiliedig ar y Model Good Lives wedi eu gwerthuso eto.

Cafodd y rhaglen driniaethau Core ar gyfer troseddwyr rhyw yn y DU ei disodli ar ôl gweld nad oedd yn lleihau aildroseddau rhywiol; fodd bynnag, roedd gan unigolion a oedd wedi cwblhau rhaglenni tebyg mewn gwledydd eraill gyfraddau aildroseddau rhywiol is nag unigolion cymaradwy nad oedd wedi eu cwblhau.

Yn yr UDA, gwelwyd fod Circles of Support and Accountability (CoSA) wedi arwain at lai o ail-euogfarnu am droseddau rhywiol. Mae astudiaethau mewn gwledydd eraill wedi dangos bod CoSA yn gallu helpu unigolion sydd wedi'u rhyddhau o garchar i integreiddio i'r gymuned, a bod hynny'n gysylltiedig â lleihau aildroseddau.

Mae darparu ymyriadau i unigolion sydd mewn perygl o gyflawni CSA hefyd yn bwysig, oherwydd maent yn aml yn cael anhawster ymgodymu â'u meddyliau rhywiol am flynyddoedd cyn cyflawni trosedd, ac mae llawer yn chwilio am help cyn troseddau.

Mae ein papurau 'Negeseuon allweddol o ymchwil' yn darparu gwybodaeth gryno a pherthnasol ar gyfer ymarferwyr rheng flaen a chomisïynwyr. Maent yn crynhoi'r ymchwil ddiweddaraf mewn trosolwg hygyrch, gan gefnogi'n hyderus yr ymatebion gorau posibl i gam-drin plant yn rhywiol.

Mae'r papur hwn yn dwyn ynghyd y dysgu o ymchwil presennol ar gam-drin plant yn rhywiol (CSA) a gyflawnir gan oedolion. Mae CSA a gyflawnir gan bobl ifanc yn gyffredin ac fe'i trafodir ym mhapur 'Negeseuon allweddol' y Ganolfan CSA ar ymddygiad rhywiol niweidiol (McNeish a Scott, 2018).

Yn unol â theipoleg y Ganolfan CSA ar droseddau CSA (CSA Centre gyda CATS, 2019), mae'r papur hwn yn cyfeirio at bob ffurf o CSA (gan gynnwys CSA o fewn a'r tu allan i deuluoedd, CSA sy'n cael ei hwyluso ar-lein, a CSA seiliedig ar grwpiau. Fodd bynnag, mae llawer o'r ymchwil yn ymdrin â dim ond un math o CSA neu'n edrych ar drais rhywiol yn gyffredinol.

Noder: Mae'r term 'plant' yn y ddogfen hon yn cyfeirio at unigolion o dan 18 oed.

Graddfa cam-drin plant yn rhywiol a gyflawnir gan oedolion

Mae'n amhosibl gwybod beth yw gwir raddfa CSA a gyflawnir gan oedolion, am resymau sy'n cynnwys gwadu cymdeithasol, cyfrinachedd ac ofni canlyniadau datgelu (Kelly a Karsna, 2018). Ond mi wyddom, fodd bynnag, nad yw'r rhan fwyaf o gyflawnwyr CSA yn cael eu herlyn: yn 2017/18, dim ond 14% o'r troseddau CSA a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr a arweiniodd at gyhuddiad neu wŷs (Parke a Karsna, 2019). Gwyddom hefyd fod data'r heddlu'n cofnodi cyfran fechan yn unig o gyflawnwyr; ymhlith yr oedolion a ddywedodd wrth Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr 2018/19 (CSEW) eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn eu plentyndod, llai nag un o bob pedwar a oedd wedi hysbysu'r heddlu (Office for National Statistics, 2020).

Mae nifer yr achosion o CSA a gofnodwyd gan yr heddlu, a nifer y diffynyddion sy'n ymddangos mewn llysoedd, wedi cynyddu yn ystod y degawd diwethaf (Parke a Karsna, 2019). Mae hyn yn arbennig o wir yn achos CSA 'a hwylusir ar-lein' CSA (CSA drwy wyllo, rhannu neu brosesu delweddau, a CSA drwy ryngweithio ar-lein). Ledled y DU yn 2019, cafodd tua 400 i 450 o unigolion eu harestio bob mis am droseddau CSA a hwylusir ar-lein (Jay et al, 2020).

Beth sy'n hysbys am oedolion sy'n cam-drin plant yn rhywiol?

Gan fod CSA yn drosedd guddiedig i raddau helaeth, mae'r wybodaeth sydd gennym am y sawl sy'n ei gyflawni yn deillio'n rhannol ac yn bennaf o unigolion sydd wedi eu canfod a'u heuogfarnu.

Daw oedolion sy'n cyflawni CSA o bob cefndir. Mae'r rhan fwyaf o CSA cyswllt a gyflawnir gan oedolion yn cael ei gyflawni gan unigolyn mae'r plentyn yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo, fel aelodau'r teulu, ffrindiau neu gydnabod ac, i raddau llai gan bobl mewn swyddi o awdurdod neu ymddiriedaeth (Kelly a Karsna, 2018).

Gall rhai o gyflawnwyr CSA rannu nodweddion â rhai sy'n cyflawni troseddau nad ydynt yn rhai rhywiol, ond nid yw patrymau troseddau ar y cyfan yn efelychu mathau eraill o droseddau. Er bod y rhan fwyaf o droseddau'n cael eu cyflawni gan bobl ifanc rhwng 16 ac 20 oed, canfu astudiaeth yn Awstralia a edrychodd ar 280 o wrywod a gafwyd yn euog o CSA fod 66% ohonynt wedi dweud eu bod wedi cyflawni eu trosedd gyntaf pan oeddent rhwng 25 a 49 oed, ac 8% pan oeddent dros 50 oed (McKillop, Brown, Smallbone a Pritchard, 2015).

Rhywedd

Mae bron bob un o'r oedolion a geir yn euog o droseddau CSA yn ddynion; yn 2016, dim ond 2% o'r rhai y dygwyd achos yn eu herbryn am droseddau CSA yng Nghymru a Lloegr oedd yn fenywod (Parke a Karsna, 2019). Ond gall cyflawni gan fenywod fod yn fwy cyffredin na'r hyn a ddatgelir gan gofnodion swyddogol: ymhlith yr unigolion a ddatgelodd eu profiadau o CSA i'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru a Lloegr (IICSA), dywedodd 16% o'r rhai a gafodd eu cam-drin mewn cyd-destunau sefydliadol eraill fel ysgolion, lleoliadau chwaraeon neu grefyddol fod cyflawnwyr benywaidd yn gysylltiedig â'r achos (Soares et al, 2019), er y gallai'r rhain fod yn blant eraill mewn rhai achosion.

Mae barn gweithwyr proffesiynol am ddirifoldeb ac effaith CSA a gyflawnir gan fenywod yn wahanol i safbwyntiau dioddefwyr a goroeswyr: mae gweithwyr proffesiynol ar y cyfan o'r farn ei fod yn llai dirifol a niweidiol na CSA a gyflawnir gan ddynion, ac mae hyn yn effeithio ar y gydnabyddiaeth a lefel y cymorth mae dioddefwyr a goroeswyr yn ei gael (Clements et al, 2014).

Ethnigrwydd

Nid yw ethnigrwydd yn rhagfynegydd o gyflawniad CSA, er gwaetha'r sylw a roddir yn y DU i ethnigrwydd y rhai hynny sy'n gysylltiedig â mathau penodol o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Dywed Sefydliad Iechyd y Byd bod CSA yn cael ei gyflawni ledled y byd (Krug et al, 2002). Ymhlith yr unigolion a erlynwyd am CSA yn 2017 ac yr oedd eu hethnigrwydd yn hysbys, roedd 11% o gefndiroedd ethnig du a lleiafrifoedd ethnig (BAME) (Parke a Karsna, 2019). Gan fod cyfrifiad 2011 wedi cofnodi bod 14% o boblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr o gefndiroedd BAME (Office for National Statistics, 2018), nid yw hyn yn dangos gorgynrychiolaeth o gyflawnwyr o'r grwpiau ethnig hyn.

Llwybrau i droseddau cam-drin plant yn rhywiol

Mae CSA yn cael ei gyflawni mewn ystod o gyd-destunau a chan unigolion y mae'n amhosibl gwahaniaethu rhyngddynt â rhai nad ydynt yn gyflawnwyr, ac mae'n debygol bod nifer o llwybrau gwahanol a chymhleth i droseddu CSA.

Mae un ddamcaniaeth seiliedig ar dystiolaeth, a adwaenir fel y Ddamcaniaeth Integredig o Droseddu Rhywiol (ITSO) (Ward a Beech, 2016), yn ceisio egluro llwybrau dynion i droseddu rhywiol. Mae'n awgrymu bod nifer o ffactorau gwahanol, cysylltiedig – gan ffactorau gynnwys ecolegol (h.y. amgylcheddau cymdeithasol, diwylliannol a ffisegol, amgylchiadau personol a dysgu), biolegol (sy'n cael eu dylanwadu gan etifeddiaeth genetig a datblygiad), niwroseicolegol (fel cymhelliant, emosiwn, cof, canfyddiad, rheolaeth), a ffactorau personol (cyflyrau emosiynol negyddol/positif, meddyliau am droseddu) – i gyd yn cyfrannu at benderfyniad i gam-drin. Mae'r ffactorau hyn yn rhyngweithio mewn ffyrdd dynamig, sy'n newid yn gyson i greu llwybrau sy'n arwain at droseddu, ac i gynnal a dwysau troseddu. Er enghraifft, mae CSA yn dylanwadu ar feddyliau, cymhellion ac ymddygiad (Smallbone a Cale, 2015).

Mae damcaniaethau wedi'u datblygu hefyd sy'n seiliedig ar ymchwil i ddeall y llwybrau i CSA ar gyfer menywod. Mae gan y Model Proses o Droseddu Rhywiol gan Fenywod (DeCou et al, 2015) elfennau sy'n debyg i'r ITSO, gan amlygu pwysigrwydd amgylchiadau personol a bywyd (ffactorau straen bywyd, salwch meddwl) mewn cyfuniad â ffactorau sefyllfaol (anawsterau mewn perthnasoedd) a'r amgylcheddau ble mae menywod yn byw (e.e. a nodweddir gan dlodi a throseddu), ond nid yw'n cynnwys ffactorau biolegol a niwroseicolegol, Mae'r Model Disgrifiadol o Droseddu Rhywiol gan Fenywod (Gannon, Rose a Ward, 2008 a 2010) yn cynnwys tri llwybr i droseddu:

- ▶ Llwybr Dull Penodol: bwriad i droseddu wedi'i symbylu gan nodau problemus a meddyliau a gwerthoedd cysylltiedig, lle mae troseddu wedi'i gynllunio ac yn arwain at emosiynau positif
- ▶ Llwybr Anhrefnus Ymhlyg: lle nad yw menywod yn bwriadu troseddu ac felly nid yw troseddau wedi'u cynllunio ond yn hytrach yn fympwyol, ac yn digwydd o ganlyniad i golli rheolaeth
- ▶ Llwybr Osgoi wedi'i Gyfarwyddo: mae menywod sydd â pherthynas glos neu sy'n ofni nodau cysylltiedig, yn cael eu cyfarwyddo gan gynllunio gan ddynion, ac maent yn profi emosiynau negyddol o ganlyniad i'r drosedd.

Trawma plentyndod

Mae cred gyffredinol fod cyflawnwyr CSA eu hunain wedi dioddef CSA, a bod hyn yn gysylltiedig â'u troseddu. Mae ymchwil ddiweddar yn awgrymu, er nad yw'r rhan fwyaf o unigolion sydd wedi profi CSA yn cam-drin pobl eraill, mae cyflawnwyr CSA yn fwy tebygol nag oedolion eraill o fod wedi profi ffurfiau lluosog o gam-drin (a elwir yn aml-erledigaeth) gan gynnwys cam-drin corfforol, esgeulustod, cam-drin domestig ac, mewn rhai achosion, cam-drin rhywiol (Leach et al, 2016; Levenson a Grady, 2016; Levenson a Socia, 2016). Mae tystiolaeth hefyd o gyfradd uwch o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ymhlith menywod a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol o'u cymharu â menywod heb droseddu (Gannon, Rose a Ward, 2008; Levenson et al, 2015; Wijkman et al, 2010).

Mae'r ITSO yn awgrymu bod y profiadau trawmatig hyn yn cynyddu'r hormonau a gynhyrchir sy'n gysylltiedig ag ymatebion ofn, ffoi ac ymladd sydd, dros amser yn gallu amharu ar dyfiant a chysylltiadau yn yr ymennydd (Anda et al, 2006; van der Kolk, 2006). Mae hyn wedyn yn dylanwadu ar y ffordd mae unigolion yn meddwl, yn rhyngweithio ag eraill, yn rheoleiddio ac yn ymateb i emosiynau, ac yn rheoli eu hymddygiad mewn ymateb i fympwyon/sefyllfaoedd (Anda et al, 2010; Anda et al, 2006; Whitfield, 1998). Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, fod trawma plentyndod yn cael ei gysylltu ag ystod eang o ganlyniadau sydd hefyd yn cynnwys risg uwch o erledigaeth, canlyniadau iechyd gwael a throseddu nad yw'n rhywiol ei natur (Asmussen et al, 2020). Felly, nid oes llwybr syml o drawma plentyndod i gyflawni CSA. I'r sawl sydd wedi profi trawma, mae gan hyn oblygiadau i ymyriadau, a ddylai fod yn seiliedig ar drawma (Levenson, 2014).

Profiadau oedolion

Dywed llawer o unigolion a gafwyd yn euog o CSA eu bod wedi cyflawni eu trosedd gyntaf ar adegau o iselder, gorbryder a straen (Gillespie et al, 2018; Walker et al, 2018), a all fod wedi eu hysgogi i droseddu. Mae astudiaeth o CSA a gyflawnwyd gan fenywod mewn lleoedd sefydliadol fel ysgolion, wedi dangos sut y gall ffactorau sefyllfaol gan gynnwys problemau mewn perthnasoedd, straen a gwendid emosiynol effeithio ar fywydau menywod a chyfrannu at eu troseddu (Darling et al, 2018).

Ffactorau sefyllfaol ac amgylcheddol

Gall sefyllfaoedd ac amgylcheddau hefyd helpu i esbonio llwybrau i gyflawni troseddau CSA, gan fod diwyllianau cymdeithasol a sefydliadol yn dylanwadu ar lefelau amddiffyn plant a chyfleoedd i CSA ddigwydd (Smallbone et al, 2008). Er enghraifft, yn groes i fathau eraill o droseddau, ymddengys fod dau gyfnod sy'n gysylltiedig â risg gynyddol o CSA: y glasoed a chanol i ddiwedd y 30au (Hanson, 2002). Mae CSA sy'n dechrau yn ystod oedolaeth yn cyd-fynd â newidiadau yn y teulu, gwaith ac amgylchiadau cymdeithasol sy'n caniatáu mynediad at blant heb oruchwyliaeth.

Mewn cyd-destunau sefydliadol, nododd dioddefwyr a goroeswyr a oedd yn rhannu hanes eu camdriniaeth ag IICSA fod y pŵer, yr awdurdod a'r parch a roddir i sefydliadau crefyddol a'r unigolion sy'n gweithio ynddynt wedi golygu nad oedd ymddygiad y cyflawnwyr yn cael ei gwestiynu (Hurcombe et al, 2019). Yn yr un modd, mewn lleoliadau gofal preswyl, gallai cyflawnwyr fynd â phlant o'r lleoliad a chael cysylltiad heb ei gwestiynu â phlant ar y safle, yn ogystal â mynediad rhwydd i leoliadau lle gallant gyflawni CSA (Soares et al, 2019).

Canfu meta-ddadansoddiad o astudiaethau'n rhyngwladol fod gan ddynion a oedd yn cyflawni troseddau yn ymwneud â delweddau o CSA fwy o fynediad at y rhyngwyl a llai o fynediad at blant o'i gymharu â rhai yr oedd eu troseddau CSA wedi cynnwys cysylltiad uniongyrchol â phlant (Babchishin et al, 2015). Gwelwyd hefyd fod ffactorau sefyllfaol (e.e. gwybod bod gwarcheidwad gerllaw) yn dylanwadu ar ddirifoldeb a hyd cysylltiad o'r fath (Leclerc et al, 2015).

Yn gyffredinol, mae troseddau CSA yn digwydd yn ystod rhyngweithiadau cymdeithasol cyffredin, lle mae darpar gyflawnwr, 'targeted' addas ac absenoldeb gwarcheidwaid yn ei gwneud yn bosibl i'r drosedd ddigwydd (Cohen a Felson, 1979). Mae hyn yn egluro pam mae'r rhan fwyaf o ddiodefwyr yn adnabod ac yn ymddiried yn yr unigolion sy'n cyflawni'r CSA yn eu herbyn, a pham mae CSA yn digwydd mewn lleoliadau ac ar adegau pan fydd gan oedolion fynediad 'arferol' at blant (Lussier et al, 2015; McKillop, Brown, Wortley a Smallbone, 2015).

Mae troseddu'n fwy tebygol o ddigwydd lle mae'r risg bod y cyflawnwyr yn cael eu dal yn isel a bod yr ymdrech sydd ei hangen yn fach. Mae astudiaethau empeiraidd wedi dangos, fel yn achos unigolion sy'n cyflawni mathau eraill o droseddau, bod oedolion sy'n cyflawni CSA yn gwneud penderfyniadau rhesymegol yn ystod y weithred o gyflawni'r drosedd (e.e. Harris et al, 2009; Lussier a Healey, 2009). Gall sefyllfaoedd a lleoliadau roi ciwiau i unigolion sy'n eu hysgogi i gyflawni CSA, rhoi pwysau cymdeithasol arnynt, gwanhau eu cyfyngiadau moesol a chynhyrchu cynnwrf emosiynol sy'n arwain at CSA (Wortley a Smallbone, 2006).

Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd strategaethau atal troseddu sefyllfaol i atal CSA, gan gydnabod bod plant wedi eu lleoli o fewn cyfres o amgylcheddau cydgysylltiedig teulu, cymheiriaid, ysgol, y gymuned a chymdeithas ehangach. Defnyddir y dull hwn mewn diogelu cyd-destunol (e.e. gweler Firmin a Lloyd, 2020), a ddatblygwyd i wella gwasanaethau diogelu ar gyfer glasod sydd mewn perygl o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant ac sydd erbyn hyn wedi ei fabwysiadu'n fwy cyffredinol drwy'r DU. Mae pecyn cymorth atal y Lucy Faithfull Foundation's Eradicating Child Sexual Abuse (ECSA) yn cynnwys adnodd i arwain ymarferwyr a llunwyr polisi drwy strategaethau atal sy'n seiliedig ar y problemau lleoliad penodol y mae plant yn eu hwynebu mewn lleoliad. Fodd bynnag, nid oes dim strategaethau sefyllfaol wedi eu gwerthuso hyd yma i asesu eu heffaith ar droseddu.

Llwybrau rhwng mathau o gam-drin plan yn rhywiol

Mae'r dystiolaeth yn dangos nad oes llwybr clir o CSA a hwylusir ar-lein i CSA cyswllt, er ei bod yn bwysig cydnabod bod yr ymchwil bresennol yn seiliedig ar unigolion sydd wedi'u canfod neu wedi'u cael yn euog, sy'n ddim mwy na chyfran yn unig o'r rhai sy'n cyflawni CSA.

Mae astudiaethau wedi dangos bod unigolion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol wedi'u hwyluso ar-lein yn llai tebygol o gael eu heuogfarnu'n ddiweddarach o drosedd rywiol â chyswllt na rhai a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol â chyswllt yn gyntaf, gyda dim ond 2% yn cyflawni trosedd rywiol â chyswllt mewn cyfnod dilynol o 1.5 i chwe blynedd (Seto et al, 2011). Canfuwyd fod gan ddynion a gafwyd yn euog o droseddau'n ymwneud â delweddu CSA nad oedd yn wrthgymdeithasol (e.e. nid oeddent wedi troseddau o'r blaen neu â phroblemau gyda goruchwyliaeth), fynediad cyfyngedig at blant, ac roedd ganddynt rwystrau seicolegol rhag cyflawni troseddau rhywiol â chyswllt yn risg isel o gyflawni troseddau â chyswllt (Babchishin et al, 2015).

Tebygolrwydd a rhagfynegyddion o aildroseddu rhywiol

Mae cred gyffredinol bod oedolion a gafwyd yn euog o CSA yn risg uchel barhaol o aildroseddu'n rhywiol, ond mae astudiaethau o aildroseddu – er nad ydynt yn rhai ar CSA yn benodol – yn dangos nad yw'r rhan fwyaf o unigolion a geir yn euog o droseddau rhywiol yn cael eu heuogfarnu o ragor o droseddau rhywiol. Yng Nghymru a Lloegr, er enghraifft, roedd 7.5% o'r rhai a ryddhawyd o garchar rhwng 2002 a 2012 wedi eu heuogfarnu o drosedd rywiol arall erbyn mis Hydref 2015 (Mews et al, 2017). Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'r rhan fwyaf o CSA yn dod i sylw'r awdurdodau.

Yn yr astudiaeth honno, roedd y gyfradd ail-euogfarnu ar gyfer troseddau o unrhyw fath yn yr un cyfnod yn sylweddol uwch, sef 38% (Mews et al, 2017). Fodd bynnag, mae peth tystiolaeth bod, o'i gymharu â'r rhai a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol y erbyn oedolion, bod unigolion a gafwyd yn euog o droseddau CSA yn fwy tebygol wedyn o gyflawni troseddau rhywiol yn unig na throseddau eraill (e.e. Harris et al, 2009; Harris et al, 2011).

Mae astudiaethau rhyngwladol tymor hir yn awgrymu nad yw'r rhan fwyaf o oedolion gwrywaidd a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol yn risg sylweddol o aildroseddu rhywiol ar ôl 10 mlynedd (sy'n risg debyg i rai â hanes o droseddau eraill) ac mai cyfran fechan yn unig sy'n parhau'n risg ar ôl 15 mlynedd (Hanson, 2018). Mae hyn yn wir am bob lefel o risg; hyd yn oed yn y grŵp risg uchaf, ni chafwyd pedwar o bob pump o unigolion mewn astudiaeth 20 mlynedd yn euog o drosedd rywiol arall (Hanson et al, 2014).

Mae tystiolaeth o ymchwil hefyd yn dangos bod cyfraddau aildroseddu menywod a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol yn sylweddol is nag yn achos dynion (Cortoni et al, 2010), gyda chyfradd aildroseddu rhywiol o tua 3%, a all adlewyrchu'n rhannol bod menywod yn annhebygol o gael eu canfod a bod yr awdurdodau'n cael eu hysbysu. Mae hyn yn awgrymu bod angen polisiau a gweithdrefnau penodol i asesu a rheoli'r risgiau gan fenywod a chan ddynion.

Daeth adolygiad o'r llenyddiaeth ryngwladol (Mann et al, 2010) i'r casgliad bod y ffactorau canlynol yn gysylltiedig ag aildroseddu rhywiol (nid troseddau CSA yn benodol):

- ▶ ymddiddori rhywiol a diddordebau rhywiol sy'n arwain at droseddu
- ▶ agweddau sy'n annog troseddu
- ▶ cytgord emosiynol â phlant (h.y. teimlo'n fwy cyfforddus yng nghwmni plant nag oedolion, edrych ar blant fel ffrindiau, a chael eu denu'n emosiynol at blant) a diffyg perthnasoedd emosiynol agos ag oedolion
- ▶ ffordd o fyw fympwyol, problemau hunan reoleiddio cyffredinol a sgiliau datrys problemau gwybyddol gwael
- ▶ ymwrthod â rheolau goruchwyliaeth, achwyniadau/atgasedd a dylanwadau cymdeithasol negyddol.

Roedd sylfaen dystiolaeth rhai ffactorau'n fwy cyfyngedig ond maent yn debygol o fod yn gysylltiedig:

- ▶ atgasedd tuag at fenywod
- ▶ calon galed/diffyg cydymdeimlad at eraill
- ▶ ymdopi camweithredol.

Er bod lle i gredu bod salwch meddwl, diffyg empathi tuag at ddiodefwr, sgiliau cymdeithasol gwael, canfyddiadau o annigonolrwydd a diffyg cymhelliad i gael triniaeth wedi bod yn gysylltiedig ag aildroseddu rhywiol, nid yw ymchwil wedi canfod cysylltiad o'r fath (Mann et al, 2010). Yn yr un modd, er bod gwadu troseddu'n aml yn cael ei ddefnyddio fel rheswm i beidio cynnwys oedolion mewn ymyriadau, mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw hynny'n gysylltiedig ag aildroseddu rhywiol neu dreisgar (Harkins et al, 2015).

Ar y llaw arall, mae cefnogaeth teulu a'r gymuned yn ffactor pwysig mewn ymatal (Blagden et al, 2014; Ware et al, 2015). Er enghraifft, roedd unigolion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol yn llai tebygol o aildroseddu os oeddent yn cael help ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar (Willis a Grace, 2009).

Ymyriadau i leihau aildroseddu

Mae'r rhan fwyaf o ymyriadau i atal CSA wedi'u hanelu at unigolion (dynion yn bennaf) a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol, yn hytrach na rhai sy'n cael meddyliau amhriodol neu'n arddangos ymddygiad sy'n achos pryder. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o ymyriadau'n canolbwyntio ar droseddau rhywiol yn gyffredinol, yn hytrach na CSA yn benodol. Mae gwefan yr ECSA (<https://ecsa.lucyfaithfull.org>) yn cynnwys rhestr o ymyriadau a gwerthusiadau ohonynt.

Rhaglenni i drin troseddwy rhywiol

Mae llawer o sylw wedi'i roi i raglenni trin troseddwy rhyw (SOTP). Mae'r rhain yn cael eu rhedeg mewn carchardai a sefydliadau eraill, yn ogystal ag yn y gymuned (e.e. drwy wasanaethau prawf). Mae SOTPaau fel arfer yn cael eu cyflwyno i grwpiau bach o unigolion, ac maent fel arfer yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau y bernir sy'n lleihau'r tebygrwydd o aildroseddu, fel herio a newid credoau sy'n annog troseddau, gwella sgiliau datrys problemau, a datblygu strategaethau ymdopi priodol. Mae unigolion yn cael eu hasesu i weld a ydynt yn addas ar gyfer y rhaglen, gyda chyfyngiadau (fel gwahardd unrhyw un sy'n gwadu eu trosedd) yn amrywio o ddarparwr i ddarparwr.

Cafodd y rhaglen SOTP Core a oedd yn cael ei chynnig yng Nghymru a Lloegr i unigolion a gafwyd yn euog o unrhyw drosedd rywiol, ei dirwyn i ben yn 2017 ar ôl i werthusiad ganfod bod cyfradd aildroseddu'r sawl a oedd wedi dilyn y rhaglen yn 10% o'i gymharu ag 8% yn achos grŵp cymharu nad oedd wedi cwblhau triniaeth (Mews et al, 2017). Cafodd ei disodli gan raglenni e.e. 'Horizon' a 'Kaizen') a ddatblygwyd gan ddefnyddio llenyddiaeth ymatal, y Model Good Lives – dull seiliedig ar gryfderau sy'n rhoi pwyslais ar helpu unigolion i ddatblygu a gweithredu cynlluniau bywyd ystyrlon sy'n anghydnaws â throseddau yn y dyfodol (Willis et al, 2013) – a dulliau seiliedig ar drawma (Levenson, 2014; Levenson et al, 2016). Fodd bynnag, nid yw'r rhaglenni hyn wedi'u gwerthuso hyd yma.

Mae'r adolygiad diweddaraf o effeithiolrwydd SOTP, yn y DU (gan gynnwys y gwerthusiad o'r rhaglen Core) ac yn rhyngwladol, wedi amlygu rhai ffactorau a welwyd sy'n gwneud y rhaglen yn fwy effeithiol (Gannon et al, 2019). Mae'r rhain yn cynnwys:

- ▶ seicolegydd trwyddedig cymwysedig sy'n bresennol yn gyson
- ▶ seicolegwyr yn goruchwylio'r staff sy'n cyflwyno'r rhaglen
- ▶ cyfranogwyr yn canmol ansawdd y rhaglen
- ▶ y rhaglen yn cael ei chyflwyno mewn grwpiau, gyda phwyslais ar reoli cynryfiadau rhywiol
- ▶ peidio â defnyddio'r polygraff (gweler isod).

Rheoli yn y gymuned

Mae nifer o strategaethau wedi cael eu defnyddio ledled y byd i reoli oedolion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol, yn y gymuned, gyda'r rhan fwyaf o sylw'r ymchwil wedi'i gyfeirio at ofynion cofrestru/hysbysu a chyfyngiadau preswyllo'r UDA. Mae'r astudiaethau hyn yn dangos bod mesurau o'r fath yn gallu cynyddu yn hytrach na lleihau cyfraddau aildroseddu am eu bod yn cyfyngu ar allu'r unigolyn i gael gwaith, cartref ac agweddau eraill ar greu bywyd cymdeithasol positif (Zgoba a Levenson, 2012).

Yn y DU, mae gan bob heddlu dîm Rheoli Troseddwy Rhyw a Throseddwy Treisgar (MOSOVO) sy'n rheoli unigolion a gafwyd yn euog yn eu hardaloedd, yn seiliedig ar eu risg. Mae rhai o'r unigolion hyn yn destun Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPa), gyda gwahanol lefelau monitro ac ymyrryd yn ddibynnol ar lefel eu risg.

Mae un astudiaeth gymharol wedi asesu effaith MAPPa ar aildroseddu. Canfu ostyngiadau bach mewn aildroseddu un flwyddyn ac mewn aildroseddu difrifol ymhlith grŵp o unigolion a oedd yn cael eu goruchwylio o dan MAPPa o'i gymharu â rhai nad oedd wedi cael goruchwyliaeth MAPPa (Bryant et al, 2015). Fodd bynnag, mae adroddiad mwy diweddar (HM Inspectorates of Probation and Prisons, 2019) wedi dangos nad oedd pennu lefelau MAPPa yn gyson bob amser, wedi'u cyfleu'n dda nac wedi'u hategu gan asesiadau cadarn ac adolygiadau rheolaidd.

Mae un agwedd ar reoli unigolion a gafwyd yn euog o drosedd rywiol yn cynnwys y defnydd o'r polygraft. Mae'r polygraft, y cyfeirir ato'n aml fel y 'prawf synhwyro celwyddau', yn gweithio ar y dybiaeth bod dweud celwydd yn achosi mwy o gynnwrf neu straen (h.y. mwy o anadlu, gweithgaredd cardiofasgwlaidd, a chwysu) na dweud y gwir (Gannon, Beech a Ward, 2008). Ers 2014 yng Nghymru a Lloegr, mae wedi bod yn ofyniad cyfreithiol bod pob unigolyn a geir yn euog o droseddau rhywiol y bernir sy'n risg uchel o aildroseddu yn cael prawf polygraft ar ôl iddynt gael eu rhyddhau i'r gymuned (Wood et al, 2020), i asesu eu cydymffurfiaeth ag amodau'r drwydded a risg. Ni ddefnyddir y polygraft fel hyn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Er bod y defnydd o'r polygraft yn fater dadleuol, mae ymchwil wedi dangos ei fod yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ganfod mwy o wybodaeth (Handler et al, 2013). Mewn gwerthusiad dwy flynedd, gwelwyd fod profion polygraft gan heddlu yn Lloegr wedi cynyddu'r tebygolrwydd bod unigolion yn datgelu gwybodaeth fanwl ac sy'n berthnasol i risgiau, a bod hynny wedi arwain at fwy o weithredu gan yr heddlu i ddiogelu'r cyhoedd (Wood et al, 2020). Fel y nodwyd uchod, fodd bynnag, canfuwyd fod rhaglenni trin sy'n defnyddio'r polygraft yn llai effeithiol na rhai nad ydynt yn ei ddefnyddio (Gannon et al, 2019).

Cylchoedd Cymorth ac Atebolrwydd

Fel y nodwyd eisoes, mae unigolion yn llai tebygol o aildroseddu os ydynt yn cael cefnogaeth pan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r carchar. Cafodd Cylchoedd Cymorth ac Atebolrwydd (CoSA), lle mae 'cylch' bychan o wirfoddolwyr hyfforddedig yn darparu cymorth i aelod craidd – yr unigolyn a gafwyd yn euog o drosedd rywiol, e.e. trosedd CSA– sydd wedi'i ryddhau i'r gymuned, eu datblygu yng Nghanada ac maent wedi'u mabwysiadu mewn nifer o wledydd gan gynnwys y DU. Er bod rhaglenni CoSA ar hyd a lled y byd yn seiliedig ar yr un egwyddorion, mae gwahaniaethau yn y ffordd maent yn cael eu gweithredu (Richards et al, 2020).

Cafodd yr unig hapdreial wedi'i reoli a gynhaliwyd hyd yma ei gynnal yn yr UDA gyda 50 aelod craidd yn cael eu hasesu fel bod yn risg gymedrol o gyflawni trosedd rywiol arall: ni chafodd yr un ohonynt eu heuogfarnu o drosedd ryw gyswllt rhywiol newydd mewn cyfnod o chwe blynedd, o'i gymharu â phedwar allan o 50 o ddynion mewn grŵp rheoli (Duwe, 2018).

Mewn gwledydd eraill, gan gynnwys y DU, mae rhaglenni CoSA yn dueddol o recriwtio unigolion risg is (McCartan et al, 2014), sy'n ei gwneud yn anos i asesu effeithiolrwydd drwy ddefnyddio cyfraddau aildroseddu. Rhaid i'r sawl sy'n cymryd rhan mewn CoSA ateb nifer o feini prawf, fel cytuno i fynychu cyfarfodydd rheolaidd, a all eu gwneud yn llai tebygol o aildroseddu beth bynnag fo'r cymorth maent yn ei gael gan CoSA. Mae rhaglenni CoSA sydd wedi'u gwerthuso yn y DU a thramor wedi dangos eu bod yn gallu helpu aelodau craidd i integreiddio mewn cymunedau – er enghraifft, drwy ddelfrydau ymddwyn positif a chymorth rhag-gymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ymatal (Richards et al, 2020).

Ymyriadau ar gyfer y sawl sydd mewn perygl o gam-drin plant yn rhywiol

Mae'r llwybrau lluosog i droseddu'n dangos pa mor anodd yw gwahaniaethu rhwng rhai sy'n cyflawni CSA a'r rhai nad ydynt, oni bai eu bod yn gofyn am gefnogaeth neu help. Mae ymdrechion i'w atal yn cael eu hamharu gan y gamdybiaeth fod cyflawnwyr CSA yn 'sâl' neu'n amlwg yn wahanol i weddill y boblogaeth, ac o ganlyniad mae perygl o ddiystyru'r risg ymhlith unigolion sy'n ymddangos yn 'normal'.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae ymyriadau sy'n targedu unigolion mewn perygl o gyflawni CSA wedi denu mwy a mwy o sylw ac adnoddau (e.e. gweler Knack et al, 2019), yn rhannol gan mai diddordeb rhywiol mewn plant yw un o'r rhagfynegyddion gorau o aildroseddu rhywiol yn erbyn plant (e.e. Hanson a Morton-Bourgon, 2005). Mae'r ymyriadau hyn yn bwysig, dangosodd astudiaeth o ddynion a gafwyd yn euog o droseddau rhyw yng Nghanada eu bod wedi ymgodymu â'u meddyliau rhywiol am bron i ddegawd ar gyfartaledd cyn iddynt gael eu harestio am y tro cyntaf (Piché et al, 2018). Mae ymchwil yn dangos hefyd bod llawer o unigolion sy'n diffinio eu hunain fel rhywun sy'n cael eu denu'n rhywiol at blant yn barod i chwilio am help (Grady et al, 2019; Levenson a Grady, 2019), er enghraifft, drwy gymryd rhan mewn rhaglenni mentora (gweler Knack et al, 2019).

Mae pryderon wedi'u mynegi bod y defnydd o'r term 'pedoffilia' yn gallu drysu dealltwriaeth o CSA (e.e. Kelly, 1996; Meyer, 2010). Defnyddir y term 'pedoffilia' i ddisgrifio diddordeb rhywiol mewn plant cyn y glasoed, ond fe'i defnyddir yn aml hefyd i ddisgrifio rhai sy'n cyflawni troseddau yn erbyn plant hyn. Mae gan bedoffilia ddiffiniad clinigol pendant a meini prawf ar gyfer diagnosis sy'n cynnwys diddordeb rhywiol dwys a pharhaus mewn plant a phresenoldeb trallod, camweithrediad a/neu weithredu ar y diddordeb (American Psychiatric Association, 2013). Er hynny, mae'n bwysig nodi nad yw bob trosedd CSA yn cael eu cyflawni gan bedoffiliaid, nid yw pawb sydd â diddordeb rhywiol mewn plant yn bedoffiliaid, ac nid yw pob pedoffil yn cyflawni troseddau rhywiol. Hefyd, nid oes gan bob unigolyn sy'n cyflawni troseddau CSA ddiddordeb rhywiol mewn plant.

Arwydd arall o'r angen am ymyriadau i dargedu'r rhai sy'n risg yw bod gan rai sy'n cael eu denu'n rhywiol at blant, a/neu sydd wedi bod neu sy'n destun ymchwiliad o ganlyniad i droseddau rhywiol, mewn mwy o berygl o gyflawni hunanladdiad (Cohen et al, 2018; Cohen et al, 2020). Yng Nghymru a Lloegr yn 2017/18, roedd 29 o'r 56 o achosion o farwolaethau y tybir eu bod yn hunanladdiad tra'r oeddent yn y ddalfa yn cynnwys unigolion a oedd dan glo oherwydd troseddau rhywiol honedig, ac roedd 13 o'r rhain yn ymwneud â delweddau o CSA (College of Policing, 2019).

Mae rhai sefydliadau ac ymarferwyr yn y DU – gan gynnwys y Lucy Faithfull Foundation, Safer Lives, y Safer Living Foundation a StopSO – wedi datblygu gweithgareddau ac ymyriadau ar gyfer ystod o unigolion a all fod mewn perygl o gyflawni trosedd rhywiol, neu sy'n destun ymchwiliad neu sy'n cael eu herlyn am droseddau rhyw. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn wedi'i werthuso hyd yma.

Daw Stop It Now! o'r UDA ac erbyn hyn mae ganddo sefydliadau cyswllt yn y DU ac Iwerddon a'r Iseldiroedd. Yn ogystal â gwybodaeth ac adnoddau, mae'n cynnig llinell gymorth a help cyfrinachol i unrhyw un sydd â phryderon am CSA. Er nad yw'n hysbys i ba raddau mae'r rhain yn lleihau lefelau cyflawni CSA, canfu gwerthusiad o'r llinellau cymorth yn yr Iseldiroedd a'r DU/Iwerddon eu bod yn galluogi pobl â meddyliau, teimladau neu ymddygiadau rhywiol tuag at blant i ddeall a rheoli eu hymddygiad yn well, a'u bod yn dweud wrthynt sut i amddiffyn plant rhag y perygl o niwed (Van Horn et al, 2015).

Ymyriadau atal ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol

Nid oes rhyw lawer o sylw wedi'i roi i ymyriadau 'atal sylfaenol', a dargedir at y boblogaeth yn gyffredinol i leihau'r tebygrwydd o droseddu CSA. Amlygodd adolygiad rhyngwladol fylchau sylweddol yn y sylfaen dystiolaeth yn achos ymyriadau sydd wedi'u hanelu at atal trais yn erbyn menywod a merched (Kerr-Wilson et al, 2020). Yn achos trais rhywiol (ond nid CSA yn benodol), canfuwyd tystiolaeth gadarn fod yr ymyriadau ataliol canlynol yn effeithiol, os ydynt wedi'u dylunio a'u gweithredu'n dda:

- ▶ gweithredu cymunedol i newid agweddau niweidiol tuag at rywedd, rolau a normau cymdeithasol yn y boblogaeth yn gyffredinol drwy weithgareddau cymunedol dwys dros sawl blwyddyn
- ▶ ymyriadau mewn ysgolion i atal trais neu drais rhywiol rhwng cariadon, gyda dulliau mwy effeithiol yn rhai hwy ac sy'n canolbwyntio ar drawsnewid perthnasoedd rhwng y rhywiau.

Roedd tystiolaeth 'dda ond cyferbyniol' hefyd o effeithiolrwydd ymyriadau dwys â dynion a bechgyn yn unig, ond tystiolaeth dda nad yw ymyriadau gwylwyr byr yn cael dim effaith. Mae'r dystiolaeth brin sy'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd marchnata cymdeithasol, cyfuno addysg ac adloniant a thechnolegau digidol yn awgrymu nad ydynt yn newid ymddygiad treisgar ond eu bod yn gallu codi ymwybyddiaeth a dylanwadu ar agweddau; roeddent fwyaf tebygol o fod yn ddefnyddiol fel rhan o ymyriadau â sawl elfen iddynt (Kerr-Wilson et al, 2020).

Cyfeiriadau

American Psychiatric Association (2013) *Diagnostic and Statistical Manual of Mental Disorders (fifth edition)*. Arlington, VA: American Psychiatric Association Publishing.

Anda, R., Butchart, A., Felitti, V. a Brown, D. (2010) Building a framework for global surveillance of the public health implications of adverse childhood experiences. *American Journal of Preventive Medicine*, 39(1):93–98.

Anda, R., Felitti, V., Bremner, J., Walker, J., Whitfield, C., Perry, B., Dube, S. a Giles, W. (2006) The enduring effects of abuse and related adverse experiences in childhood. *European Archives of Psychiatry and Clinical Neuroscience*, 256(3):174–186.

Asmussen, K., Fischer, F., Drayton, E. a McBride, T. (2020) *Adverse Childhood Experiences: What We Know, What We Don't Know, and What Should Happen Next*. London: Early Intervention Foundation.

Babchishin, K., Hanson, R. a VanZuylen, H. (2015) Online child pornography offenders are different: A meta-analysis of the characteristics of online and offline sex offenders against children. *Archives of Sexual Behavior*, 44(1):45–66.

Blagden, N., Winder, B., Gregson, M. a Thorne, K. (2014) Making sense of denial in sexual offenders: A qualitative phenomenological and repertory grid analysis. *Journal of Interpersonal Violence*, 29(9):1698–1731.

Bryant, S., Peck, M. a Lovbakke, J. (2015) *Reoffending Analysis of MAPPA Eligible Offenders*. London: Ministry of Justice.

Centre of expertise on child sexual abuse mewn cydweithrediad â Centre for Abuse and Trauma Studies, Middlesex University (2020) *A New Typology of Child Sexual Abuse Offending*. Barkingside: Centre of expertise on child sexual abuse.

Clements, H., Dawson, D. a das Nair, R. (2014) Female-perpetrated sexual abuse: A review of victim and professional perspectives. *Journal of Sexual Aggression*, 20(2):197–215.

Cohen, L. a Felson, M. (1979) Social change and crime rate trends: A routine activity approach. *American Sociological Review*, 44(4):588–608.

Cohen, L., Ndukwe, N., Yaseen, Z. a Galynker, I. (2018) Comparison of self-identified minor-attracted persons who have and have not successfully refrained from sexual activity with children. *Journal of Sex & Marital Therapy*, 44(3):217–230.

Cohen, L., Wilman-Depena, S., Barzilay, S., Hawes, M., Yaseen, Z. a Galynker, I. (2020) Correlates of chronic suicidal ideation among community-based minor-attracted persons. *Sexual Abuse*, 32(3):273–300.

College of Policing (2019) *Operational Advice: Managing the Risk of Suicide for Persons under Investigation for Online Child Sexual Abuse and Exploitation*. Ryton-on-Dunsmore: College of Policing.

Cortoni, F., Hanson, R. a Coache, M. (2010) The recidivism rates of female sexual offenders are low: A meta-analysis. *Sexual Abuse: A Journal of Research and Treatment*, 22(4):387–401.

Darling, A., Hackett, S. a Jamie, K. (2018) Female sex offenders who abuse children whilst working in organisational contexts: Offending, conviction and sentencing. *Journal of Sexual Aggression*, 24(2):196–214.

DeCou, C., Cole, T., Rowland, S., Kaplan, S. a Lynch, S. (2015) An ecological process model of female sex offending: The role of victimization, psychological distress, and life stressors. *Sexual Abuse: A Journal of Research and Treatment*, 27(3):302–323.

Duwe, G. (2018) Can circles of support and accountability (CoSA) significantly reduce sexual recidivism? Results from a randomized controlled trial in Minnesota. *Journal of Experimental Criminology*, 14(4):463–484.

Firmin, C. a Lloyd, J. (2020) *Contextual Safeguarding: A 2020 Update on the Operational, Strategic and Conceptual Framework*. Luton: University of Bedfordshire.

Gannon, T., Beech, A. a Ward, T. (2008) Does the polygraph lead to better risk prediction for sexual offenders? *Aggression and Violent Behavior*, 13(1):29–44.

Gannon, T., Olver, M., Mallion, J. a James, M. (2019) Does specialized psychological treatment for offending reduce recidivism? A meta-analysis examining staff and program variables as predictors of treatment effectiveness. *Clinical Psychology Review*, 73:101752.

- Gannon, T., Rose, M. a Ward, T. (2010) Pathways to female sexual offending: Approach or avoidance? *Psychology, Crime & Law*, 16(5):359–380.
- Gannon, T., Rose, M. a Ward, T. (2008) A descriptive model of the offense process for female sexual offenders. *Sexual Abuse: A Journal of Research and Treatment*, 20(3):352–374.
- Gillespie, S., Bailey, A., Squire, T., Carey, M., Eldridge, H. a Beech, A. (2018) An evaluation of a community-based psycho-educational program for users of child sexual exploitation material. *Sexual Abuse*, 30(2):169–191.
- Grady, M., Levenson, J., Mesias, G., Kavanagh, S. a Charles, J. (2019) “I can’t talk about that”: Stigma and fear as barriers to preventive services for minor-attracted persons. *Stigma and Health*, 4(4):400–410.
- Handler, M., Honts, C. a Nelson, R. (2013) Information gain of the directed lie screening test. *Polygraph*, 42(4):192–202.
- Hanson, R. (2018) Long-term recidivism studies show that desistance is the norm. *Criminal Justice and Behavior*, 45(9):1340–1346.
- Hanson, R. (2002) Recidivism and age: Follow-up data from 4,673 sexual offenders. *Journal of Interpersonal Violence*, 17(10):1046–1062.
- Hanson, R., Harris, A., Helmus, L. a Thornton, D. (2014) High-risk sex offenders may not be high risk forever. *Journal of Interpersonal Violence*, 29(15):2792–2813.
- Hanson, R. a Morton-Bourgon, K. (2005) The characteristics of persistent sexual offenders: A meta-analysis of recidivism studies. *Journal of Consulting and Clinical Psychology*, 73(6):1154–1163.
- Harkins, L., Howard, P., Barnett, G., Wakeling, H. a Miles, C. (2015) Relationships between denial, risk, and recidivism in sexual offenders. *Archives of Sexual Behavior*, 44(1):157–166.
- Harris, D., Knight, R., Smallbone, S. a Dennison, S. (2011) Postrelease specialization and versatility in sexual offenders referred for civil commitment. *Sexual Abuse: A Journal of Research and Treatment*, 23(2):243–259.
- Harris, D., Smallbone, S., Dennison, S. a Knight, R. (2009) Specialization and versatility in sexual offenders referred for civil commitment. *Journal of Criminal Justice*, 37(1):37–44.
- HM Inspectorates of Probation and Prisons (2019) *Management and Supervision of Men Convicted of Sexual Offences: A Thematic Inspection by HM Inspectorate of Probation and HM Inspectorate of Prisons*. Manchester: HMI Probation.
- Hurcombe, R., Darling, A., Mooney, B., Ablett, G., Soares, C., King, S. a Brähler, V. (2019) *Truth Project Thematic Report: Child Sexual Abuse in the Context of Religious Institutions*. London: Independent Inquiry into Child Sexual Abuse.
- Jay, A., Evans, M. a Sharpling, D. (2020) *The Internet: Investigation Report*. London: Independent Inquiry into Child Sexual Abuse.
- Kelly, L. (1996) Weasel words: Paedophiles and the cycle of abuse. *Trouble & Strife*, 33:44–49.
- Kelly, L. a Karsna, K. (2018) *Measuring the Scale and Changing Nature of Child Sexual Abuse and Child Sexual Exploitation: Scoping Report (updated edition)*. Barkingside: Centre of expertise on child sexual abuse.
- Kerr-Wilson, A., Gibbs, A., McAslan Fraser, E., Ramsoomar, L., Parke, A., Khuwaja, H. a Jewkes, R. (2020) *A Rigorous Global Evidence Review of Interventions to Prevent Violence against Women and Girls*. Pretoria: What Works to Prevent Violence among Women and Girls Global Programme.
- Knack, N., Winder, B., Murphy, L. a Fedoroff, J. (2019) Primary and secondary prevention of child sexual abuse. *International Review of Psychiatry*, 31(2):181–194.
- Krug, E., Dahlberg, L., Mercy, J., Zwi, A. a Lozano, R. (2002) *World Report on Violence and Health*. Geneva: World Health Organization.
- Leach, C., Stewart, A. a Smallbone, S. (2016) Testing the sexually abused-sexual abuser hypothesis: A prospective longitudinal birth cohort study. *Child Abuse & Neglect*, 51(1):144–153.
- Leclerc, B., Smallbone, S. a Wortley, R. (2015) Prevention nearby: The influence of the presence of a potential guardian on the severity of child sexual abuse. *Sexual Abuse: A Journal of Research and Treatment*, 27(2):189–204.
- Levenson, J. (2014) Incorporating trauma-informed care into evidence-based sex offender treatment. *Journal of Sexual Aggression*, 20(1):9–22.

- Levenson, J. a Grady, M. (2019) Preventing sexual abuse: Perspectives of minor-attracted persons about seeking help. *Sexual Abuse*, 31(8):991–1013.
- Levenson, J. a Grady, M. (2016) The influence of childhood trauma on sexual violence and sexual deviance in adulthood. *Traumatology*, 22(2):94–103.
- Levenson, J. a Socia, K. (2016) Adverse childhood experiences and arrest patterns in a sample of sexual offenders. *Journal of Interpersonal Violence*, 31(10):1883–1911.
- Levenson, J., Willis, G. a Prescott, D. (2016) Adverse childhood experiences in the lives of male sex offenders: Implications for trauma-informed care. *Sexual Abuse: A Journal of Research and Treatment*, 28(4):340–359.
- Levenson, J., Willis, G. a Prescott, D. (2015) Adverse childhood experiences in the lives of female sex offenders. *Sexual Abuse: A Journal of Research and Treatment*, 27(3):258–283.
- Lussier, P., Blokland, A., Mathesius, J., Pardini, D. a Loeber, R. (2015) The childhood risk factors of adolescent-onset and adult-onset of sex offending: Evidence from a prospective longitudinal study. Yn Blokland, A. a Lussier, P. (eds.), *Sex Offenders: A Criminal Career Approach*. Chichester: Wiley-Blackwell.
- Lussier, P. a Healey, J. (2009) Rediscovering Quetelet, again: The “aging” offender and the prediction of reoffending in a sample of adult sex offenders. *Justice Quarterly*, 26(4):827–856.
- Mann, R., Hanson, R. a Thornton, D. (2010) Assessing risk for sexual recidivism: Some proposals on the nature of psychologically meaningful risk factors. *Sexual Abuse: A Journal of Research and Treatment*, 22(2):191–217.
- Mews, A., Di Bella, L. a Purver, M. (2017) *Impact Evaluation of the Prison-based Core Sex Offender Treatment Programme*. London: Ministry of Justice.
- Meyer, A. (2010) Evil monsters and cunning perverts: Representing and regulating the dangerous paedophile. Yn Deflem, M. (ed.) *Popular Culture, Crime and Social Control (Sociology of Crime, Law and Deviance, Vol. 14)*. Bingley: Emerald Group Publishing.
- McCartan, K., Kemshall, H., Westwood, S., Solle, J., MacKenzie, G., Cattel, J. a Pollard, A. (2014) *Circles of Support and Accountability (CoSA): A Case File Review of Two Pilots*. London: Ministry of Justice.
- McKillop, N., Brown, S., Smallbone, S. a Pritchard, K. (2015) Similarities and differences in adolescence-onset versus adulthood-onset sexual abuse incidents. *Child Abuse & Neglect*, 46:37–46.
- McKillop, N., Brown, S., Wortley, R. a Smallbone, S. (2015) How victim age affects the context and timing of child sexual abuse: Applying the routine activities approach to the first sexual abuse incident. *Crime Science*, 4(17):1–10.
- McNeish, D. a Scott, S. (2018) *Key Messages from Research on Children and Young People Who Display Harmful Sexual Behaviour*. Barkingside: Centre of expertise on child sexual abuse.
- Office for National Statistics (2020) *Child Sexual Abuse in England and Wales: Year Ending March 2019*. Titchfield: ONS.
- Office for National Statistics (2018) *Population of England and Wales (Ethnicity Facts and Figures)*. Titchfield: ONS.
- Parke, S. a Karsna, K. (2019) *Measuring the Scale and Changing Nature of Child Sexual Abuse. Analysis of 2017/18 Official and Agency Data*. Barkingside: Centre of expertise on child sexual abuse.
- Piché, L., Mathesius, J., Lussier, P. a Schweighofer, A. (2018) Preventative services for sexual offenders. *Sexual Abuse*, 30(1):63–81.
- Richards, K., Death, J. a McCartan, K. (2020) *Community-based Approaches to Sexual Offender Reintegration*. Sydney: Australia’s National Research Organisation for Women’s Safety.
- Seto, M., Hanson, R. a Babchishin, K. (2011) Contact sexual offending by men with online sexual offenses. *Sexual Abuse: A Journal of Research and Treatment*, 23(1):124–145.
- Smallbone, S. a Cale, J. (2015) An integrated life-course developmental theory of sexual offending. Yn Blokland, A. a Lussier, P. (eds.) *Sex Offenders: A Criminal Career Approach*. Chichester: Wiley-Blackwell.

- Smallbone, S., Marshall, W. a Wortley, R. (2008) *Preventing Child Sexual Abuse: Evidence, Policy and Practice*. Cullompton: Willan.
- Soares, C., Ablett, G., Mooney, B. a King, S. (2019) *Truth Project Thematic Report: Child Sexual Abuse in the Context of Children's Homes and Residential Care*. London: Independent Inquiry into Child Sexual Abuse.
- van der Kolk, B. (2006) Clinical implications of neuroscience research in PTSD. *Annals of the New York Academy of Sciences*, 1071(1):277–293.
- Van Horn, J., Eisenberg, M., McNaughton Nicholls, C., Mulder, J., Webster, S., Paskell, C., Brown, A., Stam, J., Kerr, J. a Jago, N. (2015) Stop It Now! A pilot study into the limits and benefits of a free helpline preventing child sexual abuse. *Journal of Child Sexual Abuse*, 24(8):853-872.
- Walker, K., Pillinger, C. a Brown, S. (2018) *Characteristics and Perspectives of Adults Who Have Sexually Exploited Children: Scoping Research*. Barkingside: Centre of expertise on child sexual abuse.
- Ward, T. a Beech, A. (2016) The Integrated Theory of Sexual Offending – revised: A multifield perspective. Yn Boer, D. (ed.) *The Wiley Handbook on the Theories, Assessment and Treatment of Sexual Offending*. Chichester: Wiley-Blackwell.
- Ware, J., Marshall, W. a Marshall, L. (2015) Categorical denial in convicted sex offenders: The concept, its meaning, and its implication for risk and treatment. *Aggression and Violent Behavior*, 25(B):215–226.
- Whitfield, C. (1998) Adverse childhood experiences and trauma. *American Journal of Preventive Medicine*, 14(4):361–364.
- Willis, G. a Grace, R. (2009) Assessment of community reintegration planning for sex offenders: Poor planning predicts recidivism. *Criminal Justice and Behavior*, 36(5):494–512.
- Willis, G., Yates, P., Gannon, T. a Ward, T. (2013) How to integrate the Good Lives Model into treatment programs for sexual offending: An introduction and overview. *Sexual Abuse: A Journal of Research and Treatment*, 25(2):123–142.
- Wijkman, M., Bijleveld, C. a Hendriks, J. (2010) Women don't do such things! Characteristics of female sex offenders and offender types. *Sexual Abuse: A Journal of Research and Treatment*, 22(2):135–156.
- Wood, J., Alleyne, E., Ó Ciardha, C. a Gannon, T. (2020) *An Evaluation of Polygraph Testing by Police to Manage Individuals Convicted or Suspected of Sexual Offending*. Canterbury: University of Kent.
- Wortley, R. a Smallbone, S. (eds.) (2006) *Situational Prevention of Child Sexual Abuse (Crime Prevention Studies, Volume 19)*. Cullompton: Willan.
- Zgoba, K. a Levenson, J. (2012) Failure to register as a predictor of sex offense recidivism: The big bad wolf or a red herring? *Sexual Abuse: A Journal of Research and Treatment*, 24(4):328–349.

Papurau eraill yn y gyfres 'Negeseuon allweddol o ymchwil'

Camfanteisio'n rhywiol ar blant:

- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer staff sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal iechyd
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer yr heddlu
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau'r heddlu yn strategol
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer comisiynu gwasanaethau plant yn strategol
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau ysgolion
- ▶ Negeseuon allweddol ar gyfer gwaith aml-asiantaeth
- ▶ Bylchau yn y sylfaen wybodaeth

Plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol

Cam-drin plant yn rhywiol yn sefydliadol

Cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu

Plant mewn gofal a cham-drin plant yn rhywiol

Adnabod ac ymateb i ddatgeliadau o gam-drin plant yn rhywiol

Ewch i www.csacentre.org.uk/resources/key-messages

